Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

14 Rhagfyr 2021

Annwyl Aelodau,

Yn ychwanegol i fy lythyr ar y 29ain o Dachwedd 2021, rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y fersiwn ddrafft o God Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r canllawiau statudol ategol.

Cod Drafft Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ofyniad statudol yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr o 3-16 oed.

Mae gan Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol ac amddiffynnol yn addysg dysgwyr. Mae gan ysgolion a lleoliadau rôl bwysig o ran creu amgylcheddau diogel a grymusol wrth gefnogi hawliau dysgwyr i fwynhau cydberthynasau boddhaus, iach a diogel drwy gydol eu bywydau.

Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei gweithredu mewn ysgolion cynradd, ysgolion meithrin a gynhelir, a lleoliadau meithrin nas cynhelir o fis Medi 2022.

Mae'r byd o'n cwmpas yn esblygu'n gyflym ac yn sylweddol. Fel cymdeithas, rydym yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r canlynol:

- newid mewn strwythurau a pherthnasoedd teuluol
- newid mewn normau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol mewn perthynas â rhyw, rhywedd a rhywioldeb
- datblygiadau mewn technoleg gan gynnwys dylanwad cynyddol y cyfryngau cymdeithasol a mwy o ddefnydd o gyfathrebu a dyfeisiau digidol,
- newid cyfreithiau a hawliau o ran cydberthynasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb.

Yn y cyd-destun hwn, mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn gymorth pwysig i alluogi dysgwyr i wynebu'r newidiadau hyn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac Addysg Cydberthynas d a Rhywioldeb

Mae hyrwyddo a chefnogi cydberthynasau iach eisoes yn agwedd allweddol ar ein dull o roi terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac o ystyried natur hirdymor ein huchelgais, mae eisoes wedi llywio'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Bydd strategaeth ddrafft newydd Llywodraeth Cymru ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thais Rhywiol yn ategu'r Cod newydd ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r canllawiau statudol a bydd yn sail i hawliau dysgwyr i fwynhau cydberthynasau boddhaus, iach a diogel drwy gydol eu bywydau. Dylid darllen y canllawiau statudol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ochr yn ochr â'r Cod ac mae'n cynnwys cyfeiriad penodol at Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a chyfeiriadau uniongyrchol at drais yn erbyn menywod. Cafodd cyfeiriad at y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ei ddileu o'r Cod oherwydd nad oedd yn dechnegol gywir gan ei fod yn cyfeirio at sancsiynau cyfreithiol nad ydynt yn rhan o'r Ddeddf.

O fewn y canllawiau statudol newydd ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae'n amlwg y dylai'r dull o ymdrin ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn gadarnhaol, yn amddiffynnol ac yn ataliol, gan ystyried sut y gallai fod angen cefnogi dysgwyr i 'gael yr wybodaeth i adnabod pob math o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod, gan gynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol' ac mae dolen wedi'i gynnwys mewn pecyn cymorth o adnoddau i gefnogi ysgolion a lleoliadau ar y mater pwysig hwn. Mae'r canllawiau yn cyd-fynd â Chanllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru a phecyn cymorth Llywodraeth Cymru a ddatblygwyd gyda Chymorth i Fenywod Cymru. Mae'r canllawiau statudol hefyd yn rhoi mwy o sylw i addysgu a dysgu ac yn awgrymu dulliau posibl a fydd yn cefnogi hyn a bydd adolygiad gan gymheiriaid Estyn o aflonyddu gan gyfoedion mewn ysgolion yn sail pellach i'r gwaith o ddatblygu a chyflawni hyn mewn ysgolion.

Mae'r canllawiau statudol wedi'u datblygu ac yn gwneud yn fwy clir o ran addysgu a dysgu i gefnogi'r gwaith yma. Yn fwy cyffredinol, rydym yn parhau i hyrwyddo cydberthynasau iach yn y ffordd rydym yn cefnogi teuluoedd ac unigolion sy'n agored i niwed. Trwy hyrwyddo cysyniad cyson o natur cydberthynasau iach, byddwn yn cefnogi ein dull cymdeithas gyfan o roi terfyn ar gam-drin menywod a merched yng Nghymru. Bydd ein strategaeth newydd yn cael ei chyflawni drwy ddull partneriaeth gwirioneddol gan gynnwys addysg, iechyd, yr heddlu, gwasanaethau arbenigol a goroeswyr i greu *Glasbrint ar gyfer gweithredu*.

Roedd nifer o sefydliadau yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau a'r cod statudol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a fydd yn cefnogi diogelwch dysgwyr, drwy eu galluogi i adnabod cydberthynasau a sefyllfaoedd anniogel neu niweidiol.

Cydraddoldeb a chynwysoldeb

Mae cydraddoldeb a chynwysoldeb wrth wraidd yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

Yn unol â gofynion gorfodol y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, caiff Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei darparu mewn ffordd sy'n gynhwysol yn unol ag egwyddorion cydraddoldeb. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn gallu gweld eu hunain, eu teuluoedd, eu cymunedau a'i gilydd yn cael eu hadlewyrchu ar draws y cwricwlwm ac yn gallu dysgu gwerthfawrogi gwahaniaeth ac amrywiaeth fel ffynhonnell o

gryfder. Mae hyn yn cyfrannu at gymdeithas gydlynol, deg a theg sy'n rhoi sgiliau i ddysgwyr am oes. Mae hyn, wrth gwrs, yn cynnwys cydraddoldeb rhywiol a chynwysoldeb LHDTC+.

Mae dysgwyr yn tyfu i fyny mewn byd lle mae rhywedd a hunaniaeth rywiol, diwylliannau, hawliau a deddfwriaeth yn newid neu'n esblygu ledled y byd. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n gynhwysol ddechrau'n gynnar. O oedran ifanc gall dysgwyr ddysgu am eu natur unigryw eu hunain, sut i werthfawrogi amrywiaeth a pharchu hawliau pobl eraill. Dyma'r sylfaen ar gyfer symud nes ymlaen i archwilio amrywiaeth mewn cydberthynasau, rhywedd a hunaniaeth rywiol ac ar gyfer datblygu'r sgiliau a'r gwerthoedd sydd eu hangen i feddwl yn feirniadol am normau, hawliau ac annhegwch rhywedd a rhywiol. Dylai hyn gynnwys ystyried ystod o ddylanwadau sy'n llywio ein gwerthoedd a'n hunaniaeth. Dylai helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o wahanol werthoedd, credoau crefyddol ac euogfarnau anghrefyddol a all lywio ein gwerthoedd a'n hunaniaeth o ran cydberthynasau a rhywioldeb.

Cyfnodau sy'n briodol yn ddatblygiadol

Dylai ysgolion roi sylw i'r llinynnau gorfodol o gynnwys sy'n briodol yn ddatblygiadol o fewn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddatblygu eu dull gweithredu, a dylent gydnabod datblygiad ac anghenion cymdeithasol, corfforol, emosiynol a gwybyddol dysgwyr wrth gynllunio.

Mae'r cyfnodau wedi'u cynllunio i helpu ysgolion a lleoliadau i lunio barn ynghylch a yw dysgu'n briodol yn ddatblygiadol i ddysgwyr penodol. Mae'r oedrannau a nodir yn y cod yn nodi'n fras pryd y dylai ymarferwyr ddechrau ystyried a yw'r dysgu mewn cyfnod yn briodol yn ddatblygiadol i'w dysgwyr.

Gall hyn olygu y bydd rhai dysgwyr yn barod ar gyfer dysgu penodol cyn yr arwyddion bras a nodir yn y Cod, ond yn yr un modd gall olygu bod angen cyfle i rai dysgwyr ddatblygu ymhellach cyn iddynt ymgysylltu â dysgu penodol.

Pornograffi

Mae'r Cod wedi'i gynllunio i gydnabod anghenion a phrofiadau dysgwyr. Mae diogelwch ar-lein, cydsyniad ac iechyd rhywiol oll wedi'u cynnwys yn y Cod ar gamau sy'n briodol yn ddatblygiadol ac ymdrinnir â nhw mewn ffordd sensitif. Rydym wedi myfyrio ar adborth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys athrawon, rhieni a gofalwyr, arbenigwyr a rhanddeiliaid ehangach. Mae'n amlwg bod effaith pornograffi yn broblem enfawr, ac yn un y bydd plant a phobl ifanc ledled Cymru yn ei chael yn anodd iawn ei hwynebu.

O fewn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, bydd ymarferwyr yn ystyried priodoldeb datblygiadol dysgwyr ar gyfer dysgu ar y mater hwn, a phan fo'n briodol, bydd dysgwyr yn datblygu:

"*Deall yr effeithiau sy'n gysylltiedig â deunydd rhywiol ac agosatrwydd ar-lein, gan gynnwys y goblygiadau moesegol a chyfreithiol*." Ac, "*Ymwybyddiaeth o sut mae deunydd rhywiol a chyfryngau yn aml yn cynrychioli rhyw, gweithgarwch rhywiol, ymddangosiad corfforol a pherthnasoedd mewn ffyrdd afrealistig a niweidiol*."

Stereoteipiau Rhywedd

Mae'r Cod drafft ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn amlinellu dysgu ynghylch *'ymddygiadau a normau cadarnhaol a niweidiol a bod â'r hyder i siarad (drostynt eu hunain) ac i siarad ac eirioli dros hawliau a pharch pobl eraill'*.

Mewn datblygiad cynnar dylai'r ymddygiad hwn gael ei fodelu gan ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau. Fodd bynnag, wrth i ddysgwyr ddatblygu, maent yn symud ymlaen i ddysgu am wybod *'sut i ymateb yn ddiogel i stereoteipiau rhywedd a rhywiol ac ymddygiad annheg a'u herio*'.

Mae hyn yn arwain at y cyfnod datblygu diweddarach i'r 'gallu i archwilio a deall yn feirniadol sut y gall ystod o normau a dylanwadau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol am berthnasoedd, rhyw, rhywedd a rhywioldeb lunio canfyddiadau a'n lles a gall fod yn gadarnhaol ac yn niweidiol'.

Datblygu'r Canllawiau a'r Cod Statudol

Ymysg y rhanddeiliaid a ddatblygodd y Canllawiau a'r Cod drafft ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ochr yn ochr ag ymarferwyr, roedd: yr NSPCC, Swyddfa'r Comisiynydd Plant, Estyn, Stonewall Cymru a Chymorth i Fenywod Cymru.

Yn gywir,

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language